# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 4

TRINIAETHAU ARBENNIG

PROSPECTIVE

*Hysbysiadau stop*

### 77 Hysbysiadau stop

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw awdurdod lleol wedi ei fodloni—

(a) bod unigolyn yn rhoi triniaeth arbennig yn ardal yr awdurdod yn groes i adran 58(2) neu (3) (gofyniad i gael trwydded), neu

(b) bod person yn cynnal busnes, ac yng nghwrs y busnes hwnnw y rhoddir triniaeth arbennig yn ardal yr awdurdod, yn groes i'r gofyniad yn adran 69(2) (gofyniad i gael cymeradwyaeth).

(2) Caiff yr awdurdod roi hysbysiad o dan yr adran hon i'r unigolyn hwnnw neu'r person hwnnw (y cyfeirir ato yn yr adran hon fel "P").

(3) Yn y Rhan hon cyfeirir at hysbysiad a roddir o dan yr adran hon fel hysbysiad stop.

(4) Rhaid i hysbysiad stop ddatgan bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod P yn torri (yn ôl y digwydd) adran 58(2) neu (3) neu'r gofyniad yn adran 69(2), a—

(a) mewn achos pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni fel y'i crybwyllir yn is-adran (1)(a), wahardd P rhag rhoi'r driniaeth o dan sylw yn unrhyw le yng Nghymru, o ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad, ac eithrio o dan awdurdod trwydded triniaeth arbennig;

(b) mewn achos pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni fel y'i crybwyllir yn is-adran (1)(b), wahardd y driniaeth arbennig o dan sylw rhag cael ei rhoi yn unrhyw le yng Nghymru yng nghwrs y busnes sy'n cael ei gynnal gan P, o

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Hysbysiadau stop yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 02 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad, ac eithrio mewn mangre neu mewn cerbyd a gymeradwyir o dan adran 70.

(5) Rhaid i hysbysiad stop ddatgan hefyd—

(a) y caiff P apelio o dan adran 81 yn erbyn yr hysbysiad, a

(b) y cyfnod y caniateir i apêl gael ei dwyn ynddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 77 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Hysbysiadau stop yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 02 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2